**Dinas a Sir Abertawe**

**Cofnodion Cyfarfod Y Cyngor**

**Cyfarfod Aml-Leoliad - Siambr y Cyngor, Neuadd y Ddinas / MS Teams**

**Dydd Iau, 4 Mai 2023 am 5.00 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd J P Curtice (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| C Anderson | C A Holley | M W Locke |
| M Bailey | P R Hood-Williams | P M Matthews |
| Mair Baker | B Hopkins | P N May |
| S Bennett | D H Hopkins | F D O'Brien |
| P N Bentu | L James | A J O'Connor |
| P M Black | O G James | C L Philpott |
| A Davis | Y V Jardine | J E Pritchard |
| P Downing | A J Jeffery | S Pritchard |
| M Durke | D H Jenkins | A Pugh |
| C R Evans | J W Jones | S J Rice |
| C M J Evans | L R Jones | K M Roberts |
| E W Fitzgerald | M H Jones | B J Rowlands |
| R Francis-Davies | M Jones | R V Smith |
| R Fogarty | S M Jones | R C Stewart |
| N Furlong | S Joy | L G Thomas |
| L S Gibbard | S E Keeton | W G Thomas |
| F M Gordon | E J King | M S Tribe |
| K M Griffiths | H Lawson | L V Walton |
| H J Gwilliam | A S Lewis | T M White |
| J A Hale | M B Lewis | R A Williams |
| T J Hennegan | W G Lewis | |
| V A Holland | P Lloyd | |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Gareth Borsden | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |
| Adrian Chard | Rheolwr Adnoddau Dynol Strategol a Datblygu Sefydliadol |
| Huw Evans | Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd |
| Tracey Meredith | Prif Swyddog Cyfreithiol |
| Ben Smith | Cyfarwyddwr Cyllid / Swyddog Adran 151 |
| Martin Nicholls | Prif Weithredwr |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**

Y Cynghorydd(wyr): A M Day, C R Doyle, E T Kirchner, R D Lewis, N L Matthews, J D McGettrick, D Phillips a/ac A H Stevens

## 161. Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.

Rhoddodd y Prif Swyddog Cyfreithiol gyngor ynghylch y cysylltiadau personol a rhagfarnol posib y gallai fod gan gynghorwyr a swyddogion ag eitemau ar yr agenda.

Atgoffodd Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd gynghorwyr a swyddogion y dylid llenwi'r daflen "Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol" dim ond os oes gan y cynghorydd/swyddog gysylltiad i'w ddatgan. Nid oes angen dychwelyd ffurflenni os nad oes unrhyw beth i'w ddatgan. Hysbyswyd cynghorwyr a swyddogion hefyd y dylid datgan unrhyw fudd ar lafar ac yn ysgrifenedig ar y daflen.

Yn unol â darpariaethau'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, datganwyd y cysylltiadau canlynol:

**Cynghorwyr**

1) Datganodd y Cynghorydd F D O'Brien gysylltiad personol a rhagfarnol â chofnod rhif 166 “Cwestiynau gan y Cyhoedd a gadawodd y cyfarfod cyn i'r eitem gael ei thrafod.

2) Datganodd y Cynghorwyr J P Curtice, M Durke, C A Holley, E J King, M Jones, F D O’Brien, M S Tribe, T M White ac A Williams gysylltiad personol â chofnod rhif 168 “Datganiad Polisi Tâl 2023/24”.

3) Datganodd y Cynghorydd S J Rice gysylltiad personol a rhagfarnol â chofnod rhif 171 “Cwestiynau'r Cynghorwyr” a gadawodd y cyfarfod cyn i'r eitem gael ei thrafod.

**Swyddogion**

4) Datganodd T Meredith a B Smith gysylltiad personol a rhagfarnol â chofnod rhif 167 “Cynllun Gwerthuso'r Prif Swyddog” a gadawodd y cyfarfod cyn i'r eitem gael ei hystyried.

5) Datganodd G Borsden, A Chard, C Davies, H Evans, T Meredith, M Nicholls, a B Smith gysylltiad personol a rhagfarnol â chofnod rhif 168 "Datganiad Polisi Cyflog 2023/24" a gadawsant y cyfarfod cyn iddo gael ei ystyried.
**Nodyn:** Ni adawodd A Chard a H Evans gan fod angen iddynt aros i gyflwyno'r adroddiad, cynnal y bleidlais a chofnodi'r penderfyniad.

6) Datganodd T Meredith gysylltiad personol a rhagfarnol â chofnod rhif 169 “Opsiynau ar gyfer Penodi Swydd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol” a gadawodd y cyfarfod cyn i'r eitem gael ei hystyried.

## 162. Cofnodion.

**Penderfynwyd** cymeradwyo'r cofnodion canlynol a'u llofnodi fel cofnod cywir:

1) Cyfarfod arbennig o'r cyngor a gynhaliwyd ar 30 Mawrth 2023.
2) Cyfarfod cyffredin y cyngor a gynhaliwyd ar 30 Mawrth 2023.

## 163. Ymatebion ysgrifenedig i gwestiynau a ofynnwyd yng Nghyfarfod Cyffredinol Diwethaf y Cyngor.

Cyflwynodd y Prif Swyddog Cyfreithiol adroddiad gwybodaeth a oedd yn nodi'r ymatebion ysgrifenedig i gwestiynau a ofynnwyd yn y cyfarfod cyffredin diwethaf o'r cyngor.

## 164. Cyhoeddiadau'r Aelod Llywyddol.

### a) Y Cynghorydd Mair Baker

Croesawodd yr Aelod Llywyddol y Cynghorydd Mair Baker i'w chyfarfod cyntaf o'r cyngor. Etholwyd y Cynghorydd Baker yn dilyn Is-etholiad Penderi a gynhaliwyd ar 28 Ebrill 2023.

### b) Tarian Dewar

Amlinellodd yr Aelod Llywyddol mai Cystadleuaeth Tarian Dewar Ysgolion Cymru yw'r Gystadleuaeth Ysgolion hynaf yn y byd Rygbi. Roedd hi'n falch iawn o longyfarch Ysgolion Abertawe am ennill Tarian fawreddog Dewar yn ddiweddar am y nawfed tro, gyda buddugoliaeth o 24-22 yn erbyn Ysgolion Pontypridd yn y rownd derfynol yn Stadiwm Principality.

### c) Darllediad byw

Atgoffodd yr Aelod Llywyddol bob aelod o'r cyhoedd fod y cyfarfod yn cael ei ddarlledu'n fyw. Nododd fod yn rhaid bod yn ofalus i osgoi unrhyw sylwadau sarhaus neu ddifrïol yn erbyn Swyddogion, Cynghorwyr neu aelodau eraill o'r cyhoedd.

### d) Aros yn eistedd wrth siarad

Atgoffodd yr Aelod Llywyddol bawb a oedd yn bresennol i barhau i eistedd wrth siarad yn Siambr y Cyngor, gan fod hynny'n ei gwneud yn haws i bobl eich clywed a'ch gweld.

### e) Newidiadau/cywiriadau i wŷs y cyngor

Amlinellodd yr Aelod Llywyddol y byddai Eitem 9 "Cynllun Gwerthuso Swyddi'r Prif Swyddog" yn cael ei ystyried cyn Eitem 8 "Datganiad Polisi Tâl 2023-2024".

## 165. Cyhoeddiadau Arweinydd y Cyngor.

### a) Y Cynghorydd Mair Baker

Croesawodd Arweinydd y Cyngor y Cynghorydd Mair Baker i'w chyfarfod cyntaf o'r cyngor yn dilyn ei hetholiad diweddar yn Ward Penderi.

**166. Cwestiynau gan y Cyhoedd.**

Gofynnodd dri aelod o'r cyhoedd gwestiynau a oedd yn ymwneud â chofnod 158 "Cwestiynau Cynghorwyr - Cwestiwn 9."

Ymatebodd Arweinydd y Cyngor ac Aelod y Cabinet dros Wasanaethau Corfforaethol a Pherfformiad ac ymrwymodd i ddarparu ymateb ysgrifenedig i Mr Bettany.

**167. Cynllun Gwerthuso Swyddi Prif Swyddogion.**

Cyflwynodd y Prif Weithredwr adroddiad a oedd yn ceisio cymeradwyaeth ar gyfer cynigion Cynllun Gwerthuso Swyddi newydd i Brif Swyddogion.

**Penderfynwyd:**

1) Cymeradwyo argymhellion yr ymgynghorwyr annibynnol fel y manylir yn Adrannau 2 i 10 yr adroddiad.

2) Cytuno ar yr argymhellion y manylir arnynt yn Adran 11 yr adroddiad i fabwysiadu cynllun gwerthuso swyddi'r Gymdeithas Llywodraeth Leol (CLlL) ar gyfer Prif Swyddogion i'w ddefnyddio yn y dyfodol.

3) Gwneud y newidiadau priodol i'r Polisi Tâl o ganlyniad i benderfyniad 2.

4) Nodi'r crynodeb o'r bandiau cyflog presennol a amlinellir ym mharagraff 11.6 ac Atodiad D o'r adroddiad.

**168. Datganiad Polisi Tâl 2023/24.**

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Wasanaethau Corfforaethol a Pherfformiad y Datganiad Polisi Tâl diweddaraf ar gyfer Dinas a Sir Abertawe ar gyfer 2023/24 i'w gymeradwyo.

**Penderfynwyd** cymeradwyo a chyhoeddi Datganiad Polisi Tâl 2023-2024 diweddaraf fel a amlinellwyd yn Atodiad A yr adroddiad.

**169. Opsiynau ar gyfer y penodiad ar gyfer Swydd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol.**

Cyflwynodd y Prif Weithredwr adroddiad a oedd yn ceisio cadarnhad ynghylch yr opsiynau ar gyfer rôl Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol.

**Penderfynwyd:**

1) Nodi'r opsiynau a nodir yn yr adroddiad.

2) Cymeradwyo Opsiwn 2 - Hysbysebu'r Rôl ar sail Ran-amser barhaol.

3) Recriwtio'r swydd yn unol â Rheolau Gweithdrefnau Penodi Swyddog y Cyd-gyngor Cenedlaethol.

## 170. Strategaeth Ymgynghori ac Ymgysylltu.

Cyflwynodd Arweinydd y Cyngor adroddiad a oedd yn ceisio mabwysiadu'r Strategaeth Ymgynghori ac Ymgysylltu.

**Penderfynwyd** mabwysiadu Strategaeth Ymgynghori ac Ymgysylltu a atodwyd yn Atodiad A yr adroddiad.

**Nodyn:** Dywedodd y Cynghorydd E W Fitzgerald na chynhaliwyd ymgynghoriad ynghylch Llwybr Beicio Penlle'r-gaer. Dywedodd Arweinydd y Cyngor y caiff ymateb ysgrifenedig ei ddarparu a fydd yn amlinellu'r camau a gymerwyd gan y cyngor.

## 171. Cwestiynau gan y Cynghorwyr.

### 1) ‘Cwestiynau Atodol’ Rhan A’

Cyflwynwyd saith (7) 'Cwestiwn Atodol' Rhan A. Ymatebodd Aelod(au) perthnasol y Cabinet ar ffurf atebion ysgrifenedig a gynhwyswyd yng Ngwŷs y Cyngor.

Dangosir y cwestiynau atodol hynny yr oedd angen ymateb ysgrifenedig arnynt isod.

**Cwestiwn 1**
Gofynnodd y Cynghorydd P N May gwestiwn technegol ynglŷn â dyfnder yr arwyneb newydd y mae'r awdurdod yn ei ddefnyddio a'r dulliau o atgyweirio tyllau yn y ffordd a ddefnyddir ar gyfer cywasgu etc.

Nododd Arweinydd y Cyngor y byddai ymateb ysgrifenedig yn cael ei ddarparu gan Aelod y Cabinet dros yr Amgylchedd ac Isadeiledd.

**Cwestiwn 6**
i) Dywedodd y Cynghorydd S Bennett ei fod yn "pryderu am faint o ollyngiadau carthion sy'n mynd i mewn i'r Afon Tawe. Mae ewyn parhaol, sef blŵm algâu yn ôl yr hyn dwi wedi'i glywed, ar y Tawe. Gollyngwyd carthion i'r Tawe gyfanswm o 1,818 o weithiau yn 2022 - gan bara 13,981 o oriau.

Mae'r ymateb yn cyfeirio at ollyngiadau'n digwydd yn ystod stormydd a glaw trwm yn unig. Rwy'n gwerthfawrogi ein bod yn cael llawer o law ond nid cymaint â hyn. Gwelaf nad oes llawer o fanylion yn yr ymateb ynghylch sut mae'r cyngor yn gweithio gyda Dŵr Cymru neu Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) ynglŷn ag atal ollyngiadau parhaus i'r Tawe.

Sut fydd y cyngor yn mynd i'r afael â hyn?"

ii) Gofynnodd y Cynghorydd P M Black "Pa drafodaethau ydy'r cyngor wedi'u cael gyda Dŵr Cymru ynglŷn â gwella'u safle trin carthion ar Fabian Way?"

Nododd Arweinydd y Cyngor y byddai ymatebion ysgrifenedig i'r uchod yn cael eu darparu gan Aelod y Cabinet dros Wasanaethau Corfforaethol a Pherfformiad.

Amlinellodd y byddai hefyd yn codi'r materion a godwyd gyda Llywodraeth Cymru a Dŵr Cymru.

**2) Rhan B ‘Cwestiynau nad oes angen Cwestiynau Atodol ar eu cyfer'**

Cyflwynwyd naw (9) cwestiwn Rhan B 'Cwestiynau nad oedd angen cwestiynau atodol ar eu cyfer’.

Daeth y cyfarfod I ben am 6.18 pm

**Cadeirydd**